AECOM

# Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd

Adroddiad ACI Cychwynnol - Crynodeb Annhechnegol

Cyngor Bro Morgannwg

Hydref 2023

Delivering a better world

Ansawdd gwybodaeth

| Paratowyd gan | Gwiriwyd gan | Dilyswyd gan | Cymeradwywyd gan |
|---|---|---|---|
| RC | CB | NCB | NCB |
| Uwch Gynllunydd Amgylcheddol | Prif Gynllunydd Amgylcheddol | Cyfarwyddwr Technegol | Cyfarwyddwr Technegol |

Hanes Diwygio

| Diwygiad | Dyddiad Adolygu | Manylion | Enw | Swydd |
|---|---|---|---|---|
| F1 | Hydref 2023 | Terfynol | RC | Uwch Gynllunydd Amgylcheddol |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

Paratowyd ar gyfer:

Cyngor Bro Morgannwg

Paratowyd gan:

AECOM Limited
3ydd Llawr, Portwall Place
Portwall Lane
Bryste BS1 6NA
Y Deyrnas Unedig

Ff: +44 117 901 7000
aecom.com

Hawlfraint 2023 AECOM Limited. Cedwir Pob Hawl.

Paratowyd y ddogfen hon gan AECOM Limited ("AECOM") yn unol â'i gontract gyda Chyngor Bro Morgannwg ac yn unol â’r egwyddorion ymgynghori a dderbynnir yn gyffredinol a'r gyllideb a sefydlwyd. Nid yw AECOM wedi gwirio unrhyw wybodaeth a ddarperir gan drydydd parti ac y cyfeirir ati yma, oni nodir yn wahanol yn y ddogfen. Ni fydd gan AECOM unrhyw gyfrifoldeb i unrhyw drydydd parti sy'n defnyddio neu'n dibynnu ar y ddogfen hon.

## Tabl Cynnwys

1. Cyflwyniad .......... 4
2. Sefydlu'r dewisiadau amgen rhesymol .......... 7
3. Arfarnu'r dewisiadau amgen rhesymol .......... 17
4. Arfarnu'r Strategaeth a Ffefrir .......... 25
5. Camau nesaf a monitro .......... 29

# 1. Cyflwyniad

## Cefndir

1.1 Comisiynir AECOM i arwain yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) i gefnogi Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) Cyngor Bro Morgannwg (CBM). Mae'r ACI yn cyflawni'r gofynion a'r dyletswyddau ar gyfer Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS), Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG), Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (AEI), Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (AEYG) a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (LlCD).

### Eglurhad ar yr ACI

1.1 Mae'r ACI yn fecanwaith ar gyfer ystyried a chyfleu effeithiau tebygol cynllun sy'n datblygu, a dewisiadau amgen o ran materion cynaliadwyedd allweddol. Nod yr ACI yw llywio a dylanwadu ar y broses creu cynlluniau gyda'r nod o osgoi a lliniaru effeithiau negyddol a sicrhau'r effeithiau mwyaf cadarnhaol posib. Trwy'r dull hwn, mae'r ACI ar gyfer y CDLIN yn ceisio gwneud y mwyaf o gyfraniad y cynllun sy'n datblygu at ddatblygu cynaliadwy.

1.2 Fel y nodwyd uchod, mae'r ACI yn ceisio bodloni'r gofynion a'r dyletswyddau ar gyfer AC, AAS, AEC, AEI, AEYG a LICD. Y dull yw integreiddio'r cydrannau hyn yn llawn er mwyn darparu un broses asesu i lywio datblygiad y CDLIN.

### Yr Adroddiad ACI Cychwynnol

1.3 Cyhoeddir yr Adroddiad ACI Cychwynnol hwn law yn llaw â'r Strategaeth a Ffefrir. Bydd unrhyw sylwadau a dderbynnir yn cael eu hystyried a bydd Adroddiad ACI diwygiedig yn cael ei gyhoeddi wedi hynny law yn llaw â'r Cynllun Adneuo.

### Beth mae'r Strategaeth a Ffefrir yn ceisio ei gyflawni?

1.2 Mae CBM wrthi'n paratoi'r CDLIN ar hyn o bryd, a fydd yn disodli'r CDLl presennol ac yn helpu i siapio Bro Morgannwg am y 15 mlynedd nesaf (hyd at 2036).

1.3 Bydd y CDLIN yn nodi'r weledigaeth, yr amcanion, y strategaeth a'r polisïau ar gyfer rheoli datblygiad ym Mro Morgannwg, a bydd yn cynnwys nifer o bolisïau cynllunio lleol. Bydd y CDLIN yn nodi cynigion datblygu defnydd tir ar gyfer y Fro, gan gynnwys at ddibenion tai, cyflogaeth, manwerthu, hamdden, trafnidiaeth, twristiaeth, mwynau, gwastraff a defnyddiau cymunedol.

1.4 Bydd y CDLIN hefyd yn nodi meysydd i'w diogelu rhag datblygu ac yn darparu polisïau y bydd ceisiadau cynllunio yn y dyfodol yn cael eu hasesu yn eu herbyn. Bydd yn cael ei baratoi gan ystyried ystod eang o ddeddfwriaeth, polisïau a mentrau eraill ar lefel Ewropeaidd, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Bydd y Cynllun Llesiant Lleol (CLlLl) 'Ein Bro - Ein Dyfodol' yn arbennig o bwysig ar y lefel leol. Mae'r CLlLl yn ymwneud â lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Bro Morgannwg ac mae ganddo gysylltiadau clir â'r CDLIN lle mae hwnnw'n ymwneud â chynllunio defnydd tir.

## Beth yw cwmpas yr ACI?

1.4 Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol "Wrth benderfynu ar gwmpas a lefel y wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yn yr Adroddiad Amgylcheddol [h.y. cwmpas yr AC], bydd yr awdurdod cyfrifol yn ymgynghori â'r cyrff ymgynghori". Cyfoeth Naturiol Cymru a Cadw yw'r cyrff ymgynghori yng Nghymru. Anfonwyd Adroddiad Cwmpasu at yr ymgyngoreion statudol am eu sylwadau rhwng Awst a Medi 2022. Ystyriwyd yr ymatebion a dderbyniwyd a gwnaed diwygiadau i'r wybodaeth sylfaenol a'r Amcanion ACI drafft lle roedd angen. Ers hynny, mae cwmpas yr ACI wedi esblygu wrth i dystiolaeth newydd ddod i'r amlwg ac mae rhai mân welliannau wedi bod i amcanion yr ACI - fodd bynnag, mae'r cwmpas yn parhau i fod yr un y cytunwyd arno drwy'r ymgynghoriad cwmpasu penodol yn 2022.

1.5 Mae Tabl 1.1 yn cyflwyno amcanion yr ACI - wedi'u grwpio o dan ddeg pennawd pwnc - a sefydlwyd trwy gwmpasu, h.y. ystyried adolygiad o'r cyd-destun/gwaelodlin, materion allweddol a nodwyd ac ymatebion gan ymgyngoreion statudol.

1.6 Gyda'i gilydd, mae'r pynciau a'r amcanion ACI a gyflwynir yn Nhabl 1.1 yn darparu 'fframwaith' methodolegol ar gyfer arfarnu.

### Tabl 1.1 Fframwaith yr ACI

| Pwnc ACI | Amcan ACI |
|---|---|
| **Economi a chyflogaeth** | • Cefnogi economi gref, amrywiol, gynaliadwy a gwydn, gydag ymatebion arloesol i amodau newidiol a chymorth i weithlu cryf yn y dyfodol. |
| **Poblogaeth a chymunedau** | • Darparu digon o dai marchnad a thai fforddiadwy o ansawdd da, a seilwaith cymunedol, mewn lleoliadau cynaliadwy i ddiwallu anghenion a nodwyd?<br>• Gwella ansawdd dylunio er mwyn creu lleoedd prydferth naturiol i bobl sy'n cynnal ac yn gwella hunaniaeth cymuned ac anheddiad. |
| **Iechyd a llesiant** | • Gwella iechyd a lles trigolion Bro Morgannwg, trwy hyrwyddo lleoedd iach a chynaliadwy. |
| **Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant** | • Leihau tlodi ac anghydraddoldeb; mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol a hyrwyddo cydlyniant cymunedol |
| **Newid yn yr hinsawdd** | • Cefnogi gwydnwch Bro Morgannwg i effeithiau posibl y newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys llifogydd o ffynonellau afonol, arfordirol a dŵr wyneb.<br>• Lleihau cyfraniad Bro Morgannwg at y newid yn yr hinsawdd yn sgil gweithgareddau sy'n arwain at allyriadau nwyon tŷ gwydr a chyfrannu at ddiwallu targed sero net y Cyngor. |
| **Trafnidiaeth a symud** | • Cynyddu'r defnydd o drafnidiaeth gynaliadwy a lleihau'r angen i deithio. |
| **Adnoddau naturiol** | • Nodi a mynd ar drywydd unrhyw gyfleoedd i leihau cysylltiad y boblogaeth â llygredd aer cymaint â phosib.<br>• Gwneud y defnydd gorau o dir a ddatblygwyd o'r blaen ac adeiladau sy'n bodoli eisoes i leihau'r pwysau ar gyfer datblygu meysydd glas a diogelu tir amaethyddol gradd uwch, lle y bo'n bosibl. |

| Pwnc ACI | Amcan ACI |
|---|---|
| | • Diogelu adnoddau mwynau a sicrhau bod cyflenwad digonol o ystod amrywiol o fwynau ar gael dros yr hirdymor.<br>• Cefnogi rheoli gwastraff.<br>• Cadw, gwarchod a gwella'r amgylchedd dŵr, ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr. |
| **Bioamrywiaeth a geoamrywiaeth** | • Diogelu a gwella bioamrywiaeth o fewn ac o amgylch Bro Morgannwg. |
| **Amgylchedd hanesyddol:** | • Cadw a gwella adnodd treftadaeth Bro Morgannwg, gan gynnwys ei hamgylchedd hanesyddol a'i hasedau archeolegol.<br>• Hyrwyddo dealltwriaeth o dreftadaeth ddiwylliannol Bro Morgannwg. |
| **Tirwedd** | • Diogelu a gwella ansawdd a chymeriad tirwedd, morwedd a threflun Bro Morgannwg. |

# Beth mae Paratoi Cynllun/ACI wedi ei olygu hyd yma?

1.7 Mae gwaith paratoi ffurfiol y CDLIN wedi bod ar y gweill ers mis Mehefin 2021, gydag ystod eang o dystiolaeth wedi'i chynhyrchu i lywio'i ddatblygiad. Mae Tabl 1.2 yn nodi'r Dogfennau CDLIN ac ACI allweddol a gyhoeddir ynghyd â dyddiadau ar gyfer ymgynghori. Gellir gweld a lawrlwytho'r dogfennau CDLIN a'r sylfaen dystiolaeth (gan gynnwys yr Adroddiadau ACI) ar wefan y Cyngor.

### Tabl 4.1 Camau’r CDLIN a’r ACI

| Dogfennau ac Ymgynghoriad y CDLIN | Dogfennau ac Ymgynghoriad yr ACI |
|---|---|
| Adroddiad Adolygu Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig (Tachwedd 2021) | |
| | Adroddiad Cwmpasu’r ACI (Rhagfyr 2022) |
| Cynllun Cyn-adneuo (Strategaeth a Ffefrir) (Tachwedd 2023) | Adroddiad ACI Cychwynnol Tachwedd 2023) |

# 2. Sefydlu'r dewisiadau amgen rhesymol

## Cyflwyniad

2.1 Archwiliodd y Cyngor faint o dwf (tai a chyflogaeth) sydd ei angen dros gyfnod y cynllun (2021 i 2036) a lle gellid lleoli'r twf hwn yn y Fro. Mae pob un o'r materion hyn yn cael eu trafod yn eu tro isod.

### Lefel y twf

2.2 Comisiynodd CBM Edge Analytics i baratoi ystod o senarios demograffig, tai a thwf cyflogaeth i hysbysu'r CDLIN (2023). Deilliodd cyfanswm o ddeuddeg opsiwn twf o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys amcanestyniadau poblogaeth Llywodraeth Cymru (pedwar opsiwn), senarios seiliedig ar dueddiadau gan POPGROUP (PG) (tri opsiwn), senarios a arweinir gan anheddau (dau opsiwn), a senarios a arweinir gan gyflogaeth (tri opsiwn). Gan ddefnyddio'r ffynonellau hyn, cyflwynir llwybrau twf poblogaeth ac aelwydydd ar gyfer Bro Morgannwg, ynghyd ag anghenion mudo net blynyddol, tai a chyflogaeth (gweler Tabl 2.1 trosodd).

## Tabl 2.1 Canlyniadau senario, 2021-2036

| Senario | Newid 2021-2036 | | | | Cyfartaledd fesul blwyddyn | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Newid yn y boblogaeth | % Newid yn y boblogaeth | Newid i Aelwydydd | % Newid i Aelwydydd | Mudo net | Aneddiad au | Cyflogaeth |
| 5Y a arweinir gan Anheddau | 19,048 | 13.9 | 10,062 | 16.9 | 1,360 | 698 | 493 |
| PG-5Y | 16,923 | 12.4 | 9,187 | 15.4 | 1,222 | 637 | 426 |
| Adolygiad Tir Cyflogaeth (ATC) a arweinir gan gyflogaeth | 13,224 | 9.8 | 7,599 | 12.9 | 1,020 | 527 | 341 |
| WG-2018-HIGHPOP | 13,127 | 9.7 | 7,500 | 12.7 | 938 | 520 | 292 |
| 10Y a arweinir gan Anheddau | 13,154 | 9.7 | 7,587 | 12.8 | 1,009 | 526 | 325 |
| ATC a arweinir gan gyflogaeth (CR 1-1) | 10,719 | 7.9 | 6,548 | 11.1 | 869 | 454 | 341 |
| WG-2018 | 9,787 | 7.3 | 6,214 | 10.6 | 851 | 431 | 243 |
| PG-Hirdymor | 8,561 | 6.3 | 5,705 | 9.6 | 739 | 396 | 210 |
| PG-10Y | 8,519 | 6.3 | 5,695 | 9.6 | 741 | 395 | 197 |
| WG-2018-LOWPOP | 5,172 | 3.8 | 4,559 | 7.8 | 759 | 316 | 191 |
| OE a arweinir gan gyflogaeth | 2,402 | 1.8 | 3,041 | 5.2 | 367 | 211 | 25 |
| WG-2014 | 13 | 0.0 | 2,182 | 3.9 | 64 | 151 | -126 |

2.3 Fel y dangosir yn Nhabl 2.1 uchod, mae'r angen tai blynyddol yn amrywio o 151 annedd y flwyddyn, o dan brif amcanestyniad poblogaeth Llywodraeth Cymru yn 2014, i 698 annedd y flwyddyn, o dan y senario 5 mlynedd a arweinir gan anheddau. Y senario agosaf at bwynt canol rhwng y senarios twf isel ac uchel yw prif amcanestyniad poblogaeth Llywodraeth Cymru yn 2018, sy'n cyflawni 431 o anheddau’r flwyddyn. Mae'r rhan fwyaf o opsiynau'n dod o fewn cant yn fwy / llai o anheddau na'r pwynt canol hwn.

2.4 Mae'r senarios wedi'u grwpio'n dri opsiwn ar gyfer twf isel, canolig ac uchel fel a ganlyn:

- **Twf isel:** 151 i 211 o anheddau’r flwyddyn, a gostyngiad o 125 o swyddi i gynnydd o 25 o swyddi’r flwyddyn (WG-2014 a senarios Oxford Economics a arweinir gan Gyflogaeth).
- **Twf canolig:** 316 i 527 annedd y flwyddyn a 191 i 341 o swyddi newydd y flwyddyn (WG-2018-LOWPOP, PG-10Y, PG-Hirdymor, WG-2018, ATC a arweinir gan Gyflogaeth (CR 1-1), 10Y a arweinir gan Anheddau, WG-2018-HIGHPOP, a senarios ATC a arweinir gan Gyflogaeth).
- **Twf uchel:** 637 i 698 annedd y flwyddyn a 426 i 493 o swyddi newydd y flwyddyn, (senarios PG-5Y a 5Y a arweinir gan Anheddau).

# Lleoliad twf

2.5 Ar ôl nodi opsiynau twf, y cam nesaf oedd ystyried sut y gellid dosbarthu lefel y twf yn briodol ledled y Fro.

2.6 Mae cyfanswm o bedwar opsiwn strategaeth amgen wedi'u hystyried fel rhan o'r broses, gan adlewyrchu'r materion sy'n wynebu Bro Morgannwg a'r fframwaith polisi cenedlaethol a rhanbarthol:

- Opsiwn 1 - Parhau â Strategaeth Dwf  y CDLl mabwysiedig
- Opsiwn 2 – Twf Gwasgaredig
- Opsiwn 3 – Twf â Ffocws
- Opsiwn 4 – Twf sy'n Canolbwyntio ar Drafnidiaeth Gynaliadwy

2.7 Mae'r pedwar opsiwn wedi'u gosod allan trosodd, gyda rhagor o fanylion yn cael eu darparu gyda'r Papur Cefndir Opsiynau Gofodol.  Mae'r Papur Cefndir yn ystyried manteision ac anfanteision pob opsiwn gofodol, gan gynnwys cydymffurfiaeth pob opsiwn gofodol â Chymru'r Dyfodol. Mae'r materion allweddol a gydnabyddir fel rhan annatod o unrhyw strategaeth ofodol ar gyfer y Fro yn cynnwys:

- Yn y lle cyntaf defnyddio tir a ddatblygwyd yn flaenorol cyn safleoedd maes glas.
- Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd drwy liniaru ac addasu.
- Hyrwyddo egwyddorion creu lleoedd.
- Hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy a newid moddol.
- Gwneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer gwella seilwaith gwyrdd.
- Ymateb i'r argyfwng natur drwy fudd net bioamrywiaeth.

2.8 Ystyrir bod y pedwar opsiwn gofodol amgen oll yn realistig ond byddent yn arwain at ddosbarthiad twf gwahanol ar gyfer tai a mathau eraill o ddatblygiad (gweler y ffigurau uchod).

2.9 Mae Opsiwn 1 (Parhad â Strategaeth Twf y CDLl mabwysiedig) yn rhoi cyfle i bob tref a phentref dyfu, gyda thwf wedi'i ddosbarthu'n gyfrannol yn ôl nifer yr eiddo preswyl. O dan Opsiwn 1, byddai 90% o'r twf yn cael ei gyfeirio at y deg anheddiad mwyaf, gyda'r twf mwyaf yn cael ei gyfeirio at y Barri (41.85%) a Phenarth (18.25%).

2.10 Ar gyfer Opsiwn 2 (Twf Gwasgaredig), fel uchod, byddai'r aneddiadau mwyaf yn y Fro yn darparu'r rhan fwyaf o'r twf. Byddai cyfran lai o dwf wedyn yn mynd i'r pentrefi mwy sydd â chymwysterau cynaliadwyedd. Dim ond twf cyfyngedig iawn fyddai mewn pentrefi llai ac ardaloedd gwledig.

2.11 O dan Opsiwn 3 (Twf â Ffocws), byddai twf hefyd yn cael ei gyfeirio at y trefi a'r pentrefi mwy ond byddai hefyd yn rhoi cyfle i ddosbarthu twf i bentrefi gwledig eraill gan gynnig cyfleoedd ar gyfer twf cynaliadwy. Mae Opsiwn 3 yn categoreiddio trefi a phentrefi yn ôl asesiad o'r gwasanaethau a'r cyfleusterau presennol, gan gynnwys hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus ac agosrwydd at ardaloedd cyflogaeth a gwasanaethau allweddol fel canolfannau manwerthu,

ysgolion a gofal iechyd. Yna neilltuir twf i bob anheddiad i adlewyrchu ei safle yn hierarchaeth yr aneddiadau.

2.12 Mae Opsiwn 4 (Twf sy'n Canolbwyntio ar Drafnidiaeth Gynaliadwy) yn dyrannu datblygiad yn seiliedig ar rôl, swyddogaeth a chymeriad aneddiadau a chyfyngiadau a chyfleoedd sydd yn bod eisoes. Byddai'r ymagwedd hwn sy'n seiliedig ar le tuag at dwf yn ystyried cymeriad aneddiadau'r Fro a fyddai fel arall yn cael eu hanwybyddu pe baent yn seiliedig ar ddosbarthiad twf yn unig (yn seiliedig naill ai ar faint aneddiadau neu eu safle yn yr hierarchaeth aneddiadau). Byddai hyn yn galluogi'r cynllun i nodi'r cyfleoedd twf gorau ar gyfer twf a fydd yn cefnogi neu'n hwyluso gwella seilwaith, gwasanaethau a chyfleusterau. Fel gydag Opsiwn 3, byddai hyn yn gyffredinol yn golygu y byddai aneddiadau mwy y Fro yn dal i fod yn ganolbwynt i ddatblygiad, ond byddai'n darparu rhywfaint o hyblygrwydd sydd ei angen i gyflawni patrymau datblygu cynaliadwy.

2.13 Nodir ochr yn ochr ag ystyried yr opsiynau datblygu a strategaeth ofodol, bod y Cyngor wedi cynnal galwad am safleoedd ymgeisiol[1]. Dilynwyd hyn gan Asesiadau Safleoedd Ymgeisiol Cam 1 a 2 (gweler Adran 2.19 ymlaen, trosodd).

[1] Safleoedd Ymgeisiol Cyngor Bro Morgannwg (2022) [ar-lein] ar gael yn: https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/planning_and_building_control/Planning/planning_policy/RLDP/Candidate-Sites.aspx

## Opsiwn Gofodol 1 - Parhau â Strategaeth Dwf y CDLl mabwysiedig

Bro Morgannwg Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2021-2036



## Opsiwn Gofodol 2 -Twf Gwasgaredig

Bro Morgannwg Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2021-2036




## Opsiwn Gofodol 3 - Twf â Ffocws

Bro Morgannwg Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2021-2036



## Opsiwn Gofodol 4 - Twf sy'n Canolbwyntio ar Drafnidiaeth Gynaliadwy

Bro Morgannwg Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2021-2036



## Safleoedd Ymgeisiol

2.14 Safle Ymgeisiol yw safle a gyflwynir i'r Cyngor gan barti â diddordeb (e.e. datblygwr neu berchennog tir) i'w chynnwys o bosibl fel dyraniad yn y CDLlN. Roedd cyfnod ymgynghori Galwad am Safleoedd Ymgeisiol Bro Morgannwg yn rhedeg o 24 Mehefin 2022 i 13 Medi 2022.

2.15 Cyflwynwyd cyfanswm o 148 o Safleoedd Ymgeisiol i'w hystyried. Er mwyn nodi'r safleoedd mwyaf priodol a chyflawnadwy i'w cyflwyno i'r CDLlN, datblygodd y Cyngor Asesiad Safle Ymgeisiol oedd â'r nod o brofi addasrwydd safleoedd yn erbyn ystod o feini prawf cynllunio gan gynnwys priodweddau amgylcheddol, ffisegol a thystiolaeth o hyfywedd/cyflawnadwyedd, sy'n gyson â'r egwyddorion a nodir yn Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Llywodraeth Cymru (Rhifyn 3) Mawrth 2020.

2.16 Mae methodoleg asesu'r Cyngor yn cynnwys proses 4 cam lle mae safleoedd yn cael eu hidlo yn erbyn meini prawf penodol (gweler Papur Asesu Safle Ymgeisiol (2023)). Rôl 'Hidlo Safle Cychwynnol' Cam 1 oedd adnabod a gwaredu unrhyw safleoedd yr oedd y Cyngor yn eu hystyried yn anaddas. Roedd y meini prawf a ddefnyddiwyd i asesu addasrwydd y safleoedd ar y cam hwn yn cynnwys a oedd y safle yn bodloni trothwy maint isaf safle, yr hanes cynllunio ar y safle, a oedd y safle wedi'i leoli mewn cefn gwlad agored, a oedd y safle yn cael ei effeithio gan lifogydd yn groes i bolisi cenedlaethol, effaith bosibl ar ardaloedd cadwraeth natur dynodedig,  effaith ar safleoedd archeolegol neu hanesyddol, wedi ei leoli o fewn y Parth Iechyd a Diogelwch, ac a gefnogwyd y safle gan arfarniadau hyfywedd datblygu.

2.17 O'r asesiad Cam 1, cafodd cyfanswm o 19 safle eu heithrio o'r broses. Mae'r rhain yn cael eu nodi yn y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol gyhoeddedig[2].

2.18 Yn dilyn asesu'r safleoedd yn erbyn Cam 1 y meini prawf asesu safleoedd ymgeisiol, barnwyd bod 134 o safleoedd yn addas i'w hystyried ymhellach ac yn sgil hynny wedi eu hasesu drwy'r ACI. Mae'r fethodoleg, canfyddiadau asesu safleoedd unigol, a chanfyddiadau cryno wedi eu cyflwyno yn Atodiad B prif Adroddiad yr ACI.

## Safleoedd Allweddol

2.19 Unwaith y bydd dewis wedi'i wneud o ran cyfeiriad cyffredinol y twf (Opsiwn Gofodol 4 - Twf sy'n Canolbwyntio ar Drafnidiaeth Gynaliadwy, gweler Pennod 7 am y rhesymau dros y dewis), mae'r Cyngor yn ceisio nodi 'safleoedd allweddol' i ategu'r strategaeth a ffefrir.

2.20 Nid yw'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn rhagnodi trothwy ar gyfer 'safle allweddol', gan nodi yn hytrach y bydd hyn yn amrywio yn ôl awdurdod lleol ac felly bydd yn fater i ALlau ei benderfynu. Er mwyn i safle fod yn 'allweddol' yng

[2] Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol Cam 1 Cyngor Bro Morgannwg (2023) [ar-lein] ar gael yn: https://valeofglamorgan.oc2.uk/cy/document/24/707

nghyd-destun y Fro, ystyrir bod angen iddo fod o raddfa ddigonol i wneud cyfraniad sylweddol i Amcanion y cynllun, yn fwyaf arbennig:

- Cartrefi i Bawb – bydd safleoedd allweddol mwy yn cyflawni cymaint o dai fforddiadwy ag y bo modd.
- Creu Lleoedd – gall safleoedd allweddol mwy helpu i gefnogi cymysgedd o ran defnydd, cynnig gwasanaethau a chyfleusterau cynaliadwy, a darparu seilwaith digonol.
- Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol – mae safleoedd allweddol mwy yn cynnig mwy o gyfleoedd i ddarparu budd net o ran bioamrywiaeth ac ymgorffori rhwydweithiau seilwaith gwyrdd yn llawn o fewn datblygiadau.
- Hyrwyddo dewisiadau teithio llesol a chynaliadwy – gall safleoedd allweddol mwy wneud cyfraniadau mwy ystyrlon at wella rhwydweithiau teithio llesol.

2.21 Mae'r Cyngor o'r farn drwy ei Bapur ar Ddewis Safleoedd Ymgeisiol (2023), y byddai angen i safleoedd allweddol fod yn 200 o anheddau o leiaf, er mwyn mynd i'r afael â'r amcanion uchod.

2.22 Er gwaethaf hyn, yn ogystal â safleoedd allweddol, nodir y gallai fod angen o hyd am ddyraniadau ychwanegol ar raddfa lai o dan y trothwy hwn, gan gynnwys datblygiadau a gaiff eu harwain gan dai fforddiadwy. Bydd y rhain yn cael eu nodi ar y cam Adneuo.

2.23 Yn gyffredinol, cyflwynwyd 19 o safleoedd â chapasiti o 200 annedd neu fwy drwy'r broses safle ymgeisiol. Cafodd nifer o'r safleoedd hyn eu diystyru yng Ngham 1 y broses asesu yn unol â'r gweithdrefnau asesu safle. Cafodd safleoedd pellach eu heithrio fel rhan o Gam 2 oherwydd cyfyngiadau neu ffactorau eraill.[3]

2.24 Yn dilyn asesiad yn erbyn y Strategaeth, nodwyd bod y safleoedd canlynol (Tabl 2.2 trosodd) yn addas mewn egwyddor i'w datblygu. Mae'r safleoedd hyn yn cyd-fynd ag amcanion y strategaeth ac felly wedi'u cynnwys yn y Strategaeth a Ffefrir fel dyraniadau safleoedd allweddol. Nodir o'r rhain, bod dau wedi eu dyrannu yn y CDLl mabwysiedig ac ystyrir eu bod yn addas i'w 'bwrw ymlaen' fel dyraniad tai yn y CDLlN.

### Tabl 2.2 dyraniadau safleoedd allweddol

| Enw'r safle | Anheddiad | Categori safle |
|---|---|---|
| Tir yng Ngogledd-ddwyrain y Barri | Y Barri | Safle newydd |
| Readers Way | Y Rhws | Safle newydd |
| Tir i'r gogledd o'r Linell Reilffordd | Y Rhws | Safle CDLl a fwrwyd ymlaen (cais cynllunio yn aros am benderfyniad) |
| Tir i'r Gorllewin o Sain Tathan | Sain Tathan | Safle newydd |

[3] Mae Cam 2 yr asesiad safle ymgeisiol yn cynnwys proses asesu 2 ran (gweler y Papur Asesu Safle Ymgeisiol). Fel rhan o Gam 2 cynhaliodd AECOM asesiad o safleoedd yn erbyn y fframwaith ACI, gweler Atodiad B yr Adroddiad hwn.

| | | |
|---|---|---|
| Tir i'r de o Millands Farm | Llanilltud Fawr | Safle newydd |
| Church Farm/ Tir gerllaw Church Farm | Sain Tathan | Safle newydd |
| Tir i'r gogledd o Ddinas Powys | Dinas Powys | Safle newydd |
| Upper Cosmeston Farm | Penarth | Safle CDLl a fwrwyd ymlaen (cais cynllunio yn aros am benderfyniad) |

2.25 Gyda'r Strategaeth a Ffefrir wedi'i seilio ar y gwaith asesu safleoedd ymgeisiol a amlinellir uchod (manylion pellach ym Mhapur Asesu Safleoedd Ymgeisiol y Cyngor), mae'n briodol dod i'r casgliad nad oes unrhyw ddewisiadau strategol pellach i'w gwneud.

# 3. Arfarnu'r dewisiadau amgen rhesymol

3.1 Roedd yr opsiynau strategol a nodwyd ym Mhennod 2 uchod yn destun arfarniad cymharol o dan bob pwnc ACI. Cyflwynir canfyddiadau cryno isod, gyda chanfyddiadau manwl yn cael eu cyflwyno yn Atodiad C prif Adroddiad yr ACI.

## Lefel y twf

3.2 Cyflwynir canfyddiadau arfarnu cryno o ran y pedwar opsiwn isod.

### Tabl 3.1 Lefel y twf – canfyddiadau cryno'r ACI

| Thema ACI | Safle / Effeithiau sylweddol | Opsiwn 1: Twf isel 151 – 211 annedd y flwyddyn | Opsiwn 2: Twf canolig 316 – 527 ayf | Opsiwn 3: Twf uchel 637 – 698 ayf |
|---|---|---|---|---|
| **Economi a chyflogaeth** | Safle | **3** | **2** | **1** |
| | Effeithiau sylweddol? | **Ansicr** | **Oes – Cadarnhaol** | **Oes – Cadarnhaol** |
| **Poblogaeth a chymuned** | Safle | **3** | **2** | **1** |
| | Effeithiau sylweddol? | **Na** | **Oes – Cadarnhaol** | **Oes – Cadarnhaol** |
| **Iechyd a llesiant** | Safle | **Nifer** | **Oes – Cadarnhaol** | **Oes – Cadarnhaol** |
| | Effeithiau sylweddol? | **3** | **2** | **1** |
| **Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant cymdeithasol** | Safle | **3** | **2** | **1** |
| | Effeithiau sylweddol? | **Nifer** | **Oes – Cadarnhaol** | **Oes – Cadarnhaol** |
| **Newid yn yr hinsawdd (lliniaru ac addasu)** | Safle | **1** | **2** | **3** |
| | Effeithiau sylweddol? | **Oes – Cadarnhaol** | **Ansicr** | **Ansicr** |
| **Trafnidiaeth a symud** | Safle | **1** | **2** | **3** |
| | Effeithiau sylweddol? | **Oes – Cadarnhaol** | **Ansicr** | **Ansicr** |
| **Adnoddau naturiol (aer, tir, mwynau a dŵr)** | Safle | **1** | **2** | **3** |
| | Effeithiau sylweddol? | **Na** | **Ansicr** | **Oes – Negyddol** |
| **Bioamrywiaeth a geoamrywiaeth** | Safle | **1** | **2** | **3** |
| | Effeithiau sylweddol? | **Ansicr** | **Ansicr** | **Ansicr** |
| **Amgylchedd hanesyddol** | Safle | **2** | **1** | **3** |
| | Effeithiau sylweddol? | **Ansicr** | **Ansicr** | **Ansicr** |

| Thema ACI | Safle / Effeithiau sylweddol | Opsiwn 1: Twf isel 151 – 211 annedd y flwyddyn | Opsiwn 2: Twf canolig 316 – 527 ayf | Opsiwn 3: Twf uchel 637 – 698 ayf |
|---|---|---|---|---|
| **Tirwedd** | Safle | **1** | **2** | **3** |
| | Effeithiau sylweddol? | **Na** | **Ansicr** | **Oes – Negyddol** |

3.3 Deuir i'r casgliadau canlynol ar gyfer pob thema ACI:

| | |
|---|---|
| **Economi a chyflogaeth** | Mae'r opsiwn twf uchel yn cael ei raddio yn gyntaf, ac yna'r opsiwn twf canolig ac yna'r opsiwn twf isel. Ystyrir bod y ddau opsiwn cyntaf yn debygol o arwain at effeithiau cadarnhaol hirdymor sylweddol gan y bydd y ddau yn debygol o gyflawni digon o swyddi newydd y flwyddyn i gefnogi'r boblogaeth sy'n tyfu. Yn y cyfamser, nodir ansicrwydd o dan yr opsiwn twf isel gan ei bod yn annhebygol y bydd twf yn cael ei ddosbarthu'n gyfartal ar draws y Fro, a gallai un o'r senarios o dan yr opsiwn hwn (LIC-2014) hyd yn oed arwain at economi leol sy'n crebachu. Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai twf tai ysgogi'r economi trwy gynnydd yn y boblogaeth, yn ogystal â'r cyfleoedd cyflogaeth tymor byr sy'n gysylltiedig ag adeiladu. Eto i gyd, mae'n annhebygol y bydd hyn yn arwyddocaol o ystyried yr amcanestyniadau twf tai isel ar gyfer y senarios dan yr opsiwn hwn. |
| **Poblogaeth a chymuned** | Ystyrir wrth i lefel y twf gynyddu, felly hefyd y tebygolrwydd o gael effeithiau cadarnhaol sylweddol o ran y pwnc ACI hwn. Felly, rhestrir yr opsiynau yn ôl lefel y twf y maent yn ei ddarparu, gyda'r opsiwn twf uchel yn cael ei raddio yn gyntaf, ac yna'r opsiwn twf canolig ac yna'r opsiwn twf isel. Ystyrir bod y ddau opsiwn cyntaf yn debygol o arwain at **effaith gadarnhaol hirdymor sylweddol** gan eu bod yn cefnogi twf uchel / cymedrol yn y boblogaeth. Ni ddisgwylir unrhyw effeithiau sylweddol ar gyfer yr opsiwn twf isel gan nad yw lefel y twf a ddarperir trwy'r opsiwn hwn yn debygol o ddarparu ystod dda o fathau o dai a deiliadaethau ar draws ardal gyfan yr awdurdod lleol a gallai arwain at broblemau fforddiadwyedd. |
| **Iechyd a llesiant** | Ystyrir bod yr opsiynau twf uchel a chanolig yn debygol o arwain at **effeithiau cadarnhaol hirdymor sylweddol** wrth iddynt gyflawni lefel uchel/cymedrol o dwf tai a chyflogaeth, a fydd yn effeithio'n gadarnhaol ar iechyd a lles preswylwyr newydd a phresennol trwy'r buddion sy'n gysylltiedig â thwf. Fodd bynnag, ystyrir mai'r opsiwn twf uchel sydd â'r potensial mwyaf i gyflawni buddion o'r fath, ac felly mae'r opsiwn hwn yn cael ei restru yn gyntaf. Ni ddisgwylir unrhyw effeithiau sylweddol ar gyfer yr opsiwn twf isel, oherwydd er bod y senarios o dan yr opsiwn hwn yn sicrhau rhywfaint o dwf tai, nid ydynt yn darparu llawer (25 o swyddi newydd y flwyddyn o dan y senario OE a arweinir gan gyflogaeth) i ddim twf cyflogaeth (-126 swydd y flwyddyn o dan senario LIC-2014). |
| **Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant cymdeithasol** | Ystyrir bod yr opsiynau twf uchel a chanolig yn debygol o **gael effeithiau cadarnhaol hirdymor sylweddol** wrth iddynt gyflawni'r lefel uchaf / ail uchaf o dwf ac felly ganddyn nhw mae'r potensial mwyaf i arwain at fuddsoddiad mewn cyfleoedd ledled y Fro, tra'n darparu amrywiaeth o fathau o dai a deiliadaethau a chynnydd mewn gwasanaethau ar draws ardal yr awdurdod lleol. Ni ddisgwylir unrhyw effeithiau sylweddol ar gyfer yr opsiwn twf isel oherwydd y diffyg cydweddiad rhwng tai a thwf cyflogaeth o dan y senarios yn yr opsiwn hwn. O ran graddio, mae'r opsiynau yn cael eu graddio yn ôl lefel y twf y maent yn ei ddarparu. |

| | |
|---|---|
| **Newid yn yr hinsawdd (lliniaru ac addasu)** | Yn y pen draw, bydd natur ac arwyddocâd yr effeithiau yn dibynnu ar lle mae datblygiad wedi'i leoli, yn ogystal â'r gwelliannau seilwaith a fydd yn cyd-fynd â datblygiad. Fodd bynnag, wrth ystyried lefel y twf tai a chyflogaeth yn unig, ystyrir bod yr opsiwn twf isel yn debygol o arwain at **effeithiau cadarnhaol hirdymor sylweddol** am ei fod yn rhoi'r cyfle gorau i flaenoriaethu safleoedd mewn lleoliadau cynaliadwy sydd â chysylltiadau trafnidiaeth gynaliadwy eisoes. Nodir **ansicrwydd** am y ddau opsiwn sy'n weddill gan y gallai fod angen lleoli rhywfaint o ddatblygiad mewn lleoliadau llai cynaliadwy, a fyddai'n dibynnu ar ddarparu seilwaith newydd, ac nid yw potensial yr opsiynau hyn i gyflawni hyn yn glir ar hyn o bryd. Mae'r opsiynau yn cael eu graddio o'r lefel isaf i'r lefel uchaf o dwf. |
| **Trafnidiaeth a symud** | Yn y pen draw, bydd natur ac arwyddocâd effeithiau yn dibynnu ar lle mae datblygiad wedi'i leoli, yn ogystal â'r gwelliannau seilwaith a fydd yn cyd-fynd â datblygiad. Fodd bynnag, wrth ystyried lefel y twf tai a chyflogaeth yn unig, mae'r opsiwn twf isel yn debygol o arwain at **effeithiau cadarnhaol hirdymor sylweddol** am ei fod yn rhoi'r cyfle gorau i flaenoriaethu safleoedd mewn lleoliadau cynaliadwy sydd â chysylltiadau trafnidiaeth gynaliadwy eisoes. Nodir **ansicrwydd** am yr opsiynau twf uchel a chanolig oherwydd efallai y bydd angen lleoli rhywfaint o ddatblygiad mewn lleoliadau llai cynaliadwy, a fyddai'n dibynnu ar ddarparu seilwaith newydd, ac nid yw potensial yr opsiynau hyn i gyflawni hyn yn glir ar hyn o bryd. Mae'r opsiynau yn cael eu graddio o'r lefel isaf i'r lefel uchaf o dwf. |
| **Adnoddau naturiol (aer, tir, mwynau a dŵr)** | Mae'r opsiwn twf isel yn cael ei raddio'n gyntaf ac fe'i ystyrir yn fwyaf tebygol o osgoi effeithiau sylweddol. Mae'r opsiwn twf canolig yn cael ei raddio'n ail, gydag **ansicrwydd** wedi ei nodi, tra bod yr opsiwn twf uchel yn cael ei raddio'n olaf ac fe'i ystyrir yn fwyaf tebygol o arwain at **effeithiau negyddol hirdymor sylweddol** yn sgil faint o dir y mae'n debygol fydd ei angen i gyflawni'r lefel o dwf sy'n ofynnol o'r opsiwn hwn. |
| **Bioamrywiaeth a geoamrywiaeth** | Mae'r opsiwn twf isel yn cael ei raddio yn gyntaf, yna yr opsiwn canolig ac yna twf uchel. Nodir **ansicrwydd** ar draws y tri opsiwn gan nad yw lleoliad y twf yn hysbys ar hyn o bryd, a fydd yn pennu effaith datblygu ar safleoedd dynodedig. |
| **Amgylchedd hanesyddol:** | Nodir **ansicrwydd** o dan y tri opsiwn gan nad yw union leoliad datblygiad o dan bob opsiwn yn hysbys ar hyn o bryd. O ran safleoedd, mae'r opsiwn twf canolig yn cael ei raddio uchaf gan ei fod yn darparu lefel gymedrol o dwf, gan gyfyngu ar botensial datblygiad i gael effaith negyddol ar asedau treftadaeth o'i gymharu â'r opsiwn twf uchel. Ar yr un pryd, mae'n cynnig mwy o botensial i roi hwb i'r sector twristiaeth a threftadaeth o'i gymharu â'r opsiwn twf isel. Mae'r opsiwn twf isel yn cael ei raddio'n ail, yn uwch na'r opsiwn twf uchel, gan ei fod yn llai tebygol o effeithio'n negyddol ar leoliad asedau treftadaeth oherwydd mwy o hyblygrwydd wrth ddewis safleoedd. |
| **Tirwedd** | Yr opsiwn twf isel sy'n cael ei raddio uchaf o dan y pwnc ACI hwn gan ei fod yn fwyaf tebygol o warchod y cymeriad tirwedd/treflun/ pentreflun presennol ledled y Fro. Ni ragwelir unrhyw effeithiau sylweddol o dan yr opsiwn twf isel. Mae'r ddau opsiwn sy'n weddill yn cael eu graddio yn ôl cynyddu cwantwm twf, gyda'r opsiwn twf uchel yn cael ei raddio'n olaf. Er bod **ansicrwydd** yn cael ei nodi o dan yr opsiwn twf canolig, rhagwelir **effeithiau negyddol hirdymor sylweddol** o dan yr opsiwn twf uchel gan fod yr opsiwn hwn yn fwyaf tebygol o gael effaith negyddol ar gymeriad tirwedd/treflun/pentreflun ledled y Fro. |

# Lleoliad twf

3.4 Cyflwynir canfyddiadau arfarnu cryno y pedwar opsiwn isod.

**Tabl 3.2 Lleoliad twf - canfyddiadau cryno'r ACI**

| Thema ACI | Safle / Effeithiau sylweddol | Opsiwn 1: Parhau â'r strategaeth CDLl mabwysiedig | Opsiwn 2: Twf gwasgaredig | Opsiwn 3: Twf â Ffocws | Opsiwn 4: Twf sy'n canolbwynti o ar drafnidiaeth gynaliadwy |
|---|---|---|---|---|---|
| **Economi a chyflogaeth** | Safle | **2** | **3** | **4** | **1** |
| | Effeithiau sylweddol? | **Na** | **Na** | **Na** | **Na** |
| **Poblogaeth a chymuned** | Safle | **2** | **3** | **3** | **1** |
| | Effeithiau sylweddol? | **Oes - cadarnhaol** | **Oes - cadarnhaol** | **Oes - cadarnhaol** | **Oes - cadarnhaol** |
| **Iechyd a llesiant** | Safle | **2** | **2** | **3** | **1** |
| | Effeithiau sylweddol? | **Na** | **Na** | **Na** | **Na** |
| **Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant cymdeithasol** | Safle | **1** | **1** | **2** | **1** |
| | Effeithiau sylweddol? | **Na** | **Na** | **Na** | **Na** |
| **Newid yn yr hinsawdd (lliniaru ac addasu)** | Safle | **2** | **3** | **2** | **1** |
| | Effeithiau sylweddol? | **Na** | **Na** | **Na** | **Oes - cadarnhaol** |
| **Trafnidiaeth a symud** | Safle | **2** | **4** | **3** | **1** |
| | Effeithiau sylweddol? | **Ansicr** | **Ansicr** | **Ansicr** | **Oes - cadarnhaol** |
| **Adnoddau naturiol (aer, tir, mwynau a dŵr)** | Safle | **1** | **3** | **2** | **1** |
| | Effeithiau sylweddol? | **Oes - negyddol** | **Oes - negyddol** | **Oes - negyddol** | **Oes - negyddol** |
| **Bioamrywiaeth a geoamrywiaeth** | Safle | **1** | **2** | **1** | **1** |
| | Effeithiau sylweddol? | **Ansicr** | **Ansicr** | **Ansicr** | **Ansicr** |
| **Amgylchedd hanesyddol:** | Safle | **1** | **3** | **2** | **2** |
| | Effeithiau sylweddol? | **Ansicr** | **Ansicr** | **Ansicr** | **Ansicr** |
| **Tirwedd** | Safle | **1** | **2** | **2** | **2** |
| | Effeithiau sylweddol? | **Oes - negyddol** | **Oes - negyddol** | **Oes - negyddol** | **Oes - negyddol** |

Ar y cyfan, mae Opsiwn 4 yn perfformio'n arbennig o dda yn erbyn y rhan fwyaf o amcanion yr ACI, gan adlewyrchu rhinweddau cynaliadwyedd datblygiad cysylltiedig. Deuir i'r casgliadau canlynol o ran pob thema.

| Thema ACI | Casgliadau |
|---|---|
| **Economi a chyflogaeth** | Ni ystyrir y bydd unrhyw effeithiau sylweddol yn debygol o dan unrhyw un o'r opsiynau, ond mae Opsiwn 3 yn amlwg yn llai dewisol yn gyffredinol oherwydd y cyfyngiadau a roddir ar ddatblygu'r economi wledig (ochr yn ochr â thwf tai gwledig), a ffocws cul ar yr aneddiadau mwyaf, a allai olygu colli cyfle i integreiddio datblygiad cyflogaeth yn llwyddiannus law yn llaw â thwf tai. Ffefrir Opsiwn 4 yn gyffredinol oherwydd y ffocws ar ddatblygu cysylltiedig (gan gynnwys cysylltiadau economaidd a chysylltiadau rheilffyrdd newydd posibl yn Sain Tathan, sydd, er nad yw'n gyfyngedig i'r opsiwn hwn yn unig, yn fwy tebygol o gael eu cyflawni oddi tano), law yn llaw ag ystyriaeth briodol i ddatblygiad gwledig. Ystyrir bod Opsiwn 1 yn debygol o sicrhau manteision tebyg ac fe’i ffefrir dros Opsiwn 2 gan ei fod yn ystyried datblygiad gwledig priodol yn hytrach na neilltuo twf i bob anheddiad er gwaethaf eu diffyg cysylltiadau economaidd a thrafnidiaeth posibl. |
| **Poblogaeth a chymuned** | Mae dosbarthu'r cyflenwad tai o dan bob opsiwn yn debygol o gefnogi effeithiau cadarnhaol sylweddol yn y hirdymor. Mae Opsiwn 4 yn perfformio'n amlwg well na'r opsiynau eraill trwy ei botensial i ddarparu manteision hygyrchedd, gan gynnwys gorsaf reilffordd newydd yn Sain Tathan (sydd, er nad yw'n gyfyngedig i'r opsiwn hwn yn unig, yn fwy tebygol o gael ei ddarparu oddi tano), gan sicrhau bod cysylltiadau da gan bob cartref newydd. Mae Opsiwn 1 hefyd yn darparu manteision dosbarthiad tai sy’n fwy ystyriol a chyfartal ar draws y fwrdeistref ac felly mae'n cael ei raddio nesaf. Mae opsiynau 2 a 3 yn cael eu garddio yn llai ffafriol o ystyried y cyfyngiadau a nodwyd o dan bob opsiwn (effeithiau posibl ar hunaniaeth aneddiadau o dan Opsiwn 2 a chyfyngu ar ddatblygiad gwledig o dan Opsiwn 3). |
| **Iechyd a llesiant** | Er nad ystyrir bod effeithiau sylweddol yn debygol, cydnabyddir y byddai Opsiwn 4 yn cefnogi mwy o drigolion ledled y fwrdeistref gydag opsiynau trafnidiaeth cynaliadwy gan gynnwys opsiynau teithio llesol a rhwydweithiau seilwaith gwyrdd. Ystyrir hefyd bod opsiynau 1 a 2 yn perfformio ychydig yn well nag Opsiwn 3 o ystyried bod yr opsiynau hyn yn rhoi mwy o botensial ar gyfer manteision datblygu gwledig. |
| **Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant cymdeithasol** | Ni ystyrir y bydd unrhyw effeithiau sylweddol yn debygol ar y cam hwn, ac mae'n debygol y bydd effeithiau cadarnhaol yn cael eu gwireddu pan ddaw'r fframwaith polisi ategol i'r amlwg. Er mai ychydig o wahaniaethau sydd rhwng yr opsiynau, ystyrir bod Opsiynau 1, 2, a 4 yn well nag Opsiwn 3, o ystyried eu bod yn cefnogi elfen o gynhwysiant gwledig. |
| **Newid yn yr hinsawdd (lliniaru ac addasu)** | O ystyried y potensial i gyflawni effeithiau cadarnhaol sylweddol o ran lliniaru’r hinsawdd (h.y., canolbwyntio datblygiad mewn lleoliadau a wasanaethir yn dda gan drafnidiaeth gynaliadwy), ffefrir Opsiwn 4 yn gyffredinol.<br><br>O ran addasu i newid yn yr hinsawdd, cydnabyddir y bydd yr holl opsiynau yn cael eu cyfeirio gan yr angen am brofion dilyniannol ac eithrio, a ddylai yn y pen draw sicrhau bod datblygiad sy’n agored i niwed o fewn y gorlifdir yn cael ei osgoi, ac ni ystyrir y bydd unrhyw effeithiau sylweddol yn debygol yn hyn o beth. Cydnabyddir hefyd y gallai'r fframwaith polisi ategol ar gyfer unrhyw un o'r opsiynau sicrhau bod strategaethau draenio addas yn cael eu cynnwys mewn cynigion datblygu, sy'n lleihau pob math o berygl llifogydd ac yn ceisio gwella’r sefyllfa o ran perygl llifogydd a/neu ansawdd dŵr. |
| **Trafnidiaeth a symud** | Mae Opsiwn 4 yn sefyll allan yn y pen draw drwy ganolbwyntio twf ar hyd coridorau trafnidiaeth cynaliadwy, gan gynnwys aneddiadau llai sydd wedi'u cysylltu'n dda drwy wasanaethau teithio llesol a bysiau. Mae'r opsiwn hwn yn cael ei ystyried yn fwyaf ffafriol yn gyffredinol o ystyried ei aliniad ag amcanion trafnidiaeth a symud cynaliadwy a phosibilrwydd darparu gorsaf reilffordd newydd i Sain Tathan. Ni ystyrir unrhyw effeithiau sylweddol yn debygol o dan yr opsiynau sy'n weddill, ac mae Opsiwn 2 yn cael ei ystyried fel y lleiaf ffafriol am ei fod yn cyfeirio datblygiadau i ardaloedd sy’n llai |

| Thema ACI | Casgliadau |
|---|---|
| | cysylltiedig. Ystyrir bod Opsiwn 1 yn perfformio'n well nag Opsiwn 3 am fod y dull yn ystyried cyfyngiadau a chyfleoedd aneddiadau yn ehangach ledled y Fro, a allai helpu i ddatgloi mwy o fân effeithiau cadarnhaol mewn aneddiadau llai. |
| **Adnoddau naturiol (aer, tir, mwynau a dŵr)** | Er na ragwelir unrhyw effeithiau negyddol sylweddol o ran adnoddau aer, mwynau neu ddŵr, mae potensial wedi ei nodi ar gyfer effeithiau negyddol arwyddocaol o ran adnoddau pridd ar gyfer pob opsiwn. Mae cyfyngu ar ddatblygiad gwledig o dan Opsiynau 1, 3, a 4 yn gwneud i'r opsiynau hyn berfformio ychydig yn well nag Opsiwn 2, ac mae Opsiynau 1 a 4 yn cynnig buddion nodedig trwy ddatblygiad sy'n gysylltiedig gan ddarparu dewisiadau amgen i'r car preifat sy'n eu sgorio'n well yn gyffredinol. |
| **Bioamrywiaeth a geoamrywiaeth** | Er bod y potensial am effeithiau negyddol arwyddocaol yn cael ei gydnabod o dan bob dewis, mae ansicrwydd yn absenoldeb union leoliadau a lefelau twf mewn aneddiadau unigol. Ffefrir opsiynau 1, 3 a 4 dros Opsiwn 2 ar y cyfan gan eu bod yn cynnig mwy o botensial ar gyfer buddion strategol (sy'n gysylltiedig ag economïau maint) ac yn cyfyngu ar faint yr effeithiau ledled y fwrdeistref. |
| **Amgylchedd hanesyddol:** | Gyda chyfoeth o asedau treftadaeth a lleoliadau treftadaeth helaeth ledled y fwrdeistref, cydnabyddir bod pob strategaeth twf (h.y. pob opsiwn) ag effeithiau negyddol sylweddol posibl, a fydd yn cael eu llywio'n well wedi ystyried lleoliadau datblygu manwl gywir (gydag ansicrwydd cyffredinol yn cael ei nodi ar hyn o bryd). Mae Opsiwn 2 yn fwy tebygol o arwain at effeithiau ar draws rhannau helaethach o'r fwrdeistref, drwy ddyrannu datblygiad o fewn pob ardal anheddiad yn gymesur â'u maint. Er y byddai Opsiwn 3 (ac i raddau llai Opsiwn 4) yn cyfyngu ar hyd a lled datblygu ar draws y fwrdeistref drwy ei ganolbwyntio ar y prif ardaloedd anheddiad (a allai fod yn gadarnhaol), gallai graddfa fwy y datblygiadau mewn prif aneddiadau, oherwydd ei ffocws cul, arwain yn y pen draw at fwy o effeithiau o ran arwyddocâd asedau treftadaeth dynodedig a'u lleoliadau yn yr aneddiadau hyn. Ystyrir bod Opsiwn 1 yn perfformio ychydig yn well yn hyn o beth, trwy ddosbarthiad ehangach ac ystyriaeth o gapasiti pob anheddiad ar gyfer twf. |
| **Tirwedd** | Gan ganolbwyntio ar ehangu aneddiadau (gyda chyfleoedd tir llwyd cyfyngedig) o dan bob dewis, ystyrir yn debygol y bydd twf yn y dyfodol yn rhoi pwysau ar dirweddau sensitif a nodweddion allweddol, yn bennaf yn sgil trefoli cynyddol. Yn y pen draw, cydnabyddir y potensial ar gyfer effeithiau negyddol sylweddol ar y cam hwn o dan yr holl opsiynau (cyn-lliniaru), er y bydd modd rhoi gwell ystyriaeth i hyn trwy ystyried y lleoliadau datblygu manwl gywir. Nodir mae Opsiwn 2 sydd fwyaf tebygol o arwain at effeithiau dros rannau helaethach o'r fwrdeistref, drwy ddyrannu datblygiad o fewn pob ardal o anheddiad yn gymesur â'i faint. Er y byddai Opsiwn 3 (ac i raddau llai Opsiwn 4) yn cyfyngu ar hyd a lled datblygiad ar draws y fwrdeistref drwy ei ffocysu yn y prif ardaloedd anheddiad (a allai fod yn gadarnhaol), gallai graddfa fwy y datblygiadau mewn prif aneddiadau, oherwydd ei ffocws cul, arwain yn y pen draw at fwy o effeithiau ar gymeriad y dirwedd a llechfeddiannu cefn gwlad. Ystyrir bod Opsiwn 1 yn perfformio ychydig yn well yn hyn o beth, yn sgil dosbarthiad ehangach gyda mwy o ystyriaeth i gapasiti pob anheddiad o ran twf, gan gynnwys capasiti'r dirwedd i ysgwyddo newid. |

# Datblygu'r Strategaeth a Ffefrir

3.5 Isod mae ymateb y Cyngor i'r arfarniad ar ddewisiadau amgen a'i resymau dros ddewis yr opsiwn a ffefrir ganddo yng ngoleuni'r arfarniad o ddewisiadau amgen a ffactorau eraill:

## Lefel y twf

3.6 Fel yr eglurir yn y Papur Cefndir Dewisiadau Twf, derbyniodd lefel ganolig o dwf gefnogaeth drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid ac fe'i hystyrir yn briodol am y rhesymau canlynol:

3.7 Byddai nifer y swyddi sy'n gysylltiedig â'r cynnydd yn y boblogaeth yn cyd-fynd ag argymhellion y senario a arweinir gan gyflogaeth ar nifer y swyddi y byddai eu hangen, gan leihau'r angen am gymudo.

3.8 Ym mhob opsiwn, byddai cynnydd yn y boblogaeth 65+, ond byddai'r lefel hon o dwf hefyd yn sefydlogi'r poblogaethau o oedran gweithio ac oedran ysgol dros gyfnod y cynllun, yn wahanol i'r opsiwn twf poblogaeth isel, lle byddai gostyngiad yn gyffredinol yn y grwpiau oedran hyn. Bydd poblogaeth oedran gweithio ac oed ysgol sefydlog yn cefnogi twf economaidd a bydd yn helpu i sicrhau cymunedau ffyniannus cytbwys lle mae gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol fel ysgolion yn parhau i fod yn hyfyw.

3.9 Byddai'r lefel hon o dwf yn ei gwneud yn ofynnol dyrannu lefel gymedrol o anheddau newydd, a fydd yn cynyddu cyfleoedd i sicrhau tai fforddiadwy drwy gytundebau Adran 106 a darparu dyraniadau pellach dan arweiniad tai fforddiadwy. Bydd hyn yn helpu i fynd i'r afael â'r angen sylweddol am dai fforddiadwy a nodwyd ledled y Fro. O dan yr opsiynau twf isel, ni fyddai angen dyrannu unrhyw safleoedd tai newydd ychwanegol gan fod digon o dir o fewn y cyflenwad tir presennol i fodloni'r gofynion tai. Felly, byddai cyfleoedd i ddarparu tai fforddiadwy yn gyfyngedig.

3.10 Byddai lefel ganolig o dwf yn cyd-fynd â'r dyheadau ar gyfer Bro Morgannwg o fewn ardal dwf genedlaethol Cymru'r Dyfodol, sy'n cael ei nodi fel ffocws ar gyfer twf economaidd a thai strategol. Dylai lefel y twf yn y cynllun fod yn ddigon uchelgeisiol i gefnogi hyn, ac ar yr un pryd yn ategu ac nid yn cystadlu â Chaerdydd, a nodir yng Nghymru'r Dyfodol fel y prif anheddiad yn y rhanbarth. Ystyrir na fyddai twf isel, na fyddai'n golygu unrhyw ddyraniadau tai na chyflogaeth newydd, yn cyd-fynd â'r hyn y mae'r ardal dwf genedlaethol yn ceisio ei chyflawni. I'r gwrthwyneb, gallai lefel o dwf y tu hwnt i'r hyn a gyflawnwyd yn realistig yn y gorffennol fel sy'n ofynnol yn y senarios twf uchel gael goblygiadau ar gyfer lefel y twf y gellid ei ddarparu mewn ALlau eraill o fewn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

3.11 Ystyrir bod digon o gapasiti yn y Fro i ddarparu ar gyfer lefel ganolig o dwf y gellir ei gyflawni mewn lleoliadau cynaliadwy a hynny mewn modd sy'n rhoi amddiffyniad priodol i'r ardaloedd amgylchedd naturiol ac adeiledig mwyaf gwerthfawr.

3.12 Er mwyn ymateb i Amcanion y CDLIN, yn enwedig darparu 'Cartrefi i Bawb' ac 'Adeiladu Economi Ffyniannus a Gwyrdd,' ystyrir y byddai'r sylfaen dystiolaeth yn cefnogi twf tuag at ben uchaf yr ystod 'ganolig' gan y byddai hyn yn gwneud y mwyaf o'r potensial ar gyfer darparu tai fforddiadwy ac yn alinio'r cynnydd poblogaeth oedran gweithio arfaethedig orau â'r gofynion cyflogaeth.

3.13 Yr opsiwn Twf a Ffefrir yw'r senario 10 Mlynedd a arweinir gan anheddau, sy'n seiliedig ar y gyfradd adeiladu flynyddol gyfartalog dros 10 mlynedd cyntaf y cynllun mabwysiedig (526 annedd y flwyddyn neu 7,890 dros gyfnod y cynllun). Gan fod yr opsiwn hwn yn adlewyrchu'r hyn sydd wedi'i gyflawni yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ystyrir ei fod yn realistig ac yn gyflawnadwy ac yn ddigon uchelgeisiol, o ystyried safle'r Fro o fewn yr ardal dwf genedlaethol.

## Lleoliad twf

3.14 Yn dilyn dadansoddiad o'r pedwar opsiwn strategaeth, ac allbwn y sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid, ystyrir mai'r Opsiwn Twf sy'n Canolbwyntio ar Drafnidiaeth Gynaliadwy yw'r mwyaf priodol gan ei fod yn cyd-fynd orau â gofynion polisi Cymru'r Dyfodol, Polisi Cynllunio Cymru a Llwybr Newydd – Strategaeth Trafnidiaeth Cymru drwy ganolbwyntio datblygiad mewn mannau cynaliadwy a fyddai'n lleihau'r angen i deithio ac yn annog y defnydd o drafnidiaeth gynaliadwy. Bydd yr opsiwn hwn yn ystyried gallu aneddiadau i amsugno datblygiad, yn hytrach na thargedu datblygiad yn bennaf i safleoedd o faint neu safle penodol yn yr hierarchaeth.

3.15 Yn dilyn y broses ymgysylltu, mae ffocws y strategaeth wedi'i fireinio fel ei bod yn ceisio nid yn unig lleoli safleoedd mewn lleoedd a wasanaethir yn dda gan drafnidiaeth gyhoeddus ond hefyd yn targedu datblygiadau mewn mannau sy'n lleihau'r angen i deithio yn y lle cyntaf trwy gydleoli tai mewn lleoedd sydd â chyfleoedd cyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol. Mae'r Strategaeth Dwf Gynaliadwy hon hefyd yn ymateb i'r angen dybryd am dai fforddiadwy drwy ganolbwyntio datblygiad yn yr ardaloedd sydd â mwy o angen. Mae'r strategaeth hefyd yn caniatáu datblygiadau bychain a arweinir gan dai fforddiadwy mewn aneddiadau gwledig bychain lle bo hynny'n briodol i ymateb i'r angen am dai fforddiadwy mewn cymunedau ledled y Fro.

# 4. Arfarnu'r Strategaeth a Ffefrir

## Cyflwyniad

4.1 Mae'r arfarniad yn nodi ac yn gwerthuso 'effeithiau sylweddol tebygol' y cynllun ar y gwaelodlin, gan ddefnyddio'r amcanion ACI a nodwyd drwy gwmpasu (gweler Tabl 1.1) fel fframwaith methodolegol.

4.2 Nodir canfyddiadau cryno eang isod, ac yna Tabl 4.1 sy'n nodi'r prif gasgliadau yn erbyn pob thema ACI. Cyflwynir canfyddiadau manwl yn y prif Adroddiad ACI.

## Crynodeb o ganfyddiadau'r arfarniad

4.3 Rhagwelir y bydd y Strategaeth a Ffefrir yn arwain **at effeithiau cadarnhaol hirdymor sylweddol** o ran pynciau'r economi a chyflogaeth, poblogaeth a chymunedau, ac iechyd a lles. Mae hyn yn adlewyrchu cyflawni tir cyflogaeth newydd a chartrefi i ddiwallu a rhagori ar anghenion lleol a nodwyd, tra'n darparu hyblygrwydd yn ystod cyfnod y cynllun. At hynny, mae twf yn canolbwyntio'n fras ar y lleoliadau mwyaf cynaliadwy, gan sicrhau bod gan breswylwyr well mynediad at drafnidiaeth lesol/gyhoeddus a gwasanaethau a chyfleusterau sy'n bod eisoes; a bod prif drefi a chanolfannau gwasanaeth y Fro yn ffynnu yn y tymor hir.

4.4 **Rhagwelir mân effeithiau positif** ar gyfer trafnidiaeth a symud. Ni ddisgwylir effeithiau arwyddocaol ar gyfer y pynciau ACI hyn gan fod gan dwf y potensial o hyd i arwain at fwy o dagfeydd, o ganlyniad i nifer cynyddol o geir trigolion/ceir preifat.

4.5 **Rhagwelir mân effeithiau positif** hefyd ar gyfer y pynciau ACI cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant cymdeithasol, gan gydnabod y bydd hierarchaeth ffyniannus o aneddiadau ar draws ardal y cynllun (sy'n adlewyrchu'r Arfarniad Aneddiadau Cynaliadwy) yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at fynd i'r afael ag anghydraddoldebau ac amddifadedd ar draws y fwrdeistref sirol.

4.6 **Rhagwelir effeithiau niwtral** o ran addasu i newid yn yr hinsawdd, tra mai ansicr yw'r farn o ran lliniaru. Mae hyn yn adlewyrchu'r manylion cyfyngedig a geir o ran hyfywedd, er ei fod yn cael ei gydnabod bod potensial i effeithiau cadarnhaol sylweddol yn bodoli. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, defnyddio cyfleoedd ar raddfa strategol ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy arloesol.

4.7 **Ansicrwydd** yw'r casgliad ar hyn o bryd o ran yr amgylchedd a'r dirwedd hanesyddol, gan adlewyrchu'r wybodaeth gyfyngedig sydd ei hangen o ran safleoedd llai eu maint. Bydd union leoliad a graddfa'r datblygiad ar y safleoedd hyn yn dylanwadu ar arwyddocâd yr effeithiau gweddilliol, ochr yn ochr â darpariaethau polisi ehangach sydd eto i'w datblygu.

4.8 **Ystyrir y bydd effeithiau negyddol sylweddol** yn debygol ar gyfer y pwnc ACI adnoddau naturiol o ystyried lefel y twf sy'n cael ei gynnig drwy'r Strategaeth a Ffefrir. Yn nodedig, bydd hyn yn arwain at golli swm sylweddol o dir maes glas, er ei fod yn cael ei gydnabod bod ansicrwydd ynghylch y dyraniadau safleoedd llai.

4.9 **Mae’r effeithiau negyddol sylweddol** o ran bioamrywiaeth yn adlewyrchu'r casgliadau a gafwyd drwy’r ARhC. Fodd bynnag, cydnabyddir unwaith y bydd argymhellion wedi'u mabwysiadu, mae'n debygol y bydd effeithiau gweddilliol yn cael eu lleihau; gyda'r potensial ar gyfer effeithiau cadarnhaol.

### Tabl 4.1 Casgliadau pennawd cryno

| Pwnc ACI | Casgliadau pennawd |
|---|---|
| **Economi a chyflogaeth** | Rhagwelir y bydd y Strategaeth a Ffefrir yn arwain at **effeithiau cadarnhaol hirdymor sylweddol** ynghylch pwnc ACI yr economi a chyflogaeth. Mae'n manteisio ar gyfleoedd sy'n deillio o leoliad strategol y Fro, gan fanteisio ar ddyraniadau cyflogaeth mawr mewn lleoliadau cynaliadwy, fel meysydd buddsoddi allweddol. O ganlyniad, dylai helpu i ddarparu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant sylweddol, galluogi busnesau sefydledig i ehangu, a darparu ardaloedd deniadol ar gyfer buddsoddiad gan fusnesau lleol. Ystyrir y gallai twf economaidd o bosib leihau cymudo allan o’r sir, ond mae'r strategaeth yn dal i geisio gwella'r cysylltiadau cynaliadwy allweddol hynny ag ardaloedd cyflogaeth strategol y tu allan i'r Fro, fel Caerdydd. |
| **Poblogaeth a chymunedau** | Mae'r strategaeth yn perfformio'n dda yn gyffredinol yn erbyn yr amcanion ACI poblogaeth a chymunedau, gyda’r casgliad y bydd **effeithiau cadarnhaol hirdymor sylweddol**. Nod y strategaeth yw darparu lefel gynaliadwy o dwf tai a chyflogaeth wedi’i gefnogi gan seilwaith priodol i gyd-fynd â safle'r Fro ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd ardal dwf genedlaethol Cymru’r Dyfodol. Ystyrir y bydd canolbwyntio twf, gan gynnwys safleoedd strategol allweddol, o fewn yr Ardal Dwf Strategol yn cefnogi datblygiad cymunedau addasadwy, hygyrch, sydd wedi'u cysylltu'n dda. Yn benodol, mae graddfa'r datblygu a gynigir drwy Safle Allweddol 'Gogledd-ddwyrain y Barri' yn cynnig cyfle i wneud gwelliannau sylweddol i'r seilwaith er mwyn sicrhau bod yr estyniad hwn i'r Barri yn integreiddio â'r gymuned bresennol. |
| **Iechyd a llesiant** | Mae'r ddogfen Strategaeth a Ffefrir yn cydnabod bod iechyd a lles cymunedau yn hanfodol bwysig er mwyn sicrhau datblygiad cynaliadwy hirdymor a chreu lleoedd. Mae'r Strategaeth yn canolbwyntio twf yn y lleoliadau mwyaf cynaliadwy yn yr Ardal Dwf Strategol, gan gyfrannu'n gadarnhaol at bwnc ACI iechyd a llesiant. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gan breswylwyr well mynediad at drafnidiaeth lesol/gyhoeddus a’r gwasanaethau a chyfleusterau presennol, sydd wedi'u lleoli i raddau helaeth yn Anheddiad Allweddol y Barri ac sy’n cefnogi Aneddiadau Canolfannau Gwasanaeth. Mae'r Strategaeth a Ffefrir hefyd yn perfformio'n gadarnhaol o ran gosod gofynion ar gyfer darparu seilwaith gwyrdd, a gwarchod a gwella cysylltedd rhwng asedau seilwaith gwyrdd. **Effeithiau cadarnhaol hirdymor sylweddol** yw’r casgliad felly ar hyn o bryd. |
| **Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant cymdeithasol** | Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn perfformio'n dda o ran cyfeirio twf i'r ardaloedd hynny ym Mro Morgannwg y nodwyd eu bod yn fwy difreintiedig yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC), ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn y cymunedau hyn. Bydd hyn yn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau ac amddifadedd yn y Fro drwy sicrhau bod gan breswylwyr fynediad at gyflogaeth, addysg a gwasanaethau gerllaw. Mae'r Strategaeth a Ffefrir hefyd yn ceisio mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant cymdeithasol trwy ddarparu tai fforddiadwy. Rhoddir ystyriaeth hefyd drwy'r strategaeth i geisio sicrhau bod tai yn y dyfodol yn gwneud darpariaeth ar gyfer anghenion llety penodol Sipsiwn a Theithwyr, yr henoed a phobl anabl. Yn olaf, dylai'r cynllun adneuo geisio mynd i'r afael â'r amodau sy'n hanfodol i'r Gymraeg, ac sy'n cyfrannu at ei ddefnydd. **Mân effeithiau positif** yw’r casgliad felly ar hyn o bryd. |

| | |
|---|---|
| **Newid yn yr hinsawdd** | Lle mae Safleoedd Allweddol wedi'u cyfyngu gan lefel o berygl llifogydd (llai na 50% o'r safle o fewn Ardal Llifogydd 2), ystyrir y dylai polisi lefel uwch, ynghyd ag uwchgynllunio sydd ar y gweill, a gofynion polisi safle-benodol, liniaru'n briodol unrhyw effeithiau andwyol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod dull dilyniannol yn cael ei arfer i sicrhau nad yw datblygiad yn digwydd mewn ardaloedd sydd â risg uchel o lifogydd pan fo ardaloedd priodol â risg is ar gael. Fodd bynnag, a chan fod yn ofalus, **ansicrwydd** yw'r casgliad ar y cam hwn o ran addasu i'r newid yn yr hinsawdd.<br>O ran lliniaru newid yn yr hinsawdd, gallai dosbarthu twf i'r Prif ganolfan a'r Canolfannau lleol yn ddamcaniaethol wneud y mwyaf o'r potensial i geisio cyfleoedd ar raddfa strategol ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy arloesol. Agwedd allweddol arall ar y Strategaeth a Ffefrir yw'r gefnogaeth a roddir i gyfleoedd adfywio, gan gynnwys diogelu tir yn hen Orsaf Bŵer Aberddawan fel canolfan ynni gwyrdd. **Ansicrwydd** fodd bynnag yw'r casgliad ar gyfer lliniaru newid yn yr hinsawdd ar hyn o bryd. Cwestiwn allweddol yw sut mae'r Strategaeth a Ffefrir yn ceisio manteisio ar Faes Awyr Caerdydd, a'r heriau y mae hyn yn eu creu ar gyfer cyrraedd targedau/ymrwymiadau datgarboneiddio. Ystyrir y caiff hyn ei archwilio ymhellach o fewn y cynllun adneuo. |
| **Trafnidiaeth a symud** | Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn rhoi pwys mawr ar y rhwydwaith trafnidiaeth gynaliadwy a phwysigrwydd cyfeirio twf i leoliadau a all naill ai integreiddio â'r rhwydwaith presennol neu ei wella trwy gryfhau cysylltiadau â gwasanaethau a chyfleusterau allweddol. Mae'r datblygu yn canolbwyntio ar yr Ardal Twf Strategol, sy'n cynnwys aneddiadau Penarth a Chogan, Dinas Powys, Y Barri, Y Rhws a Llanilltud Fawr; oll yn lleoliadau wedi eu gwasanaethu'n dda gan orsafoedd rheilffyrdd presennol ac arfaethedig fel rhan o Metro De Cymru ac mewn ardaloedd sydd â chysylltiadau bws da. Mae'r Strategaeth a Ffefrir hefyd yn perfformio'n dda trwy ddyrannu safleoedd strategol allweddol sydd o fewn pellter cerdded a beicio i ganolfannau, gan y bydd hyn yn lleihau'r angen i deithio. Yn ogystal, o ystyried maint safleoedd allweddol, mae'n debygol y bydd effeithiau cadarnhaol yn cael eu cyflawni trwy ddarpariaeth seilwaith, gwell cysylltedd, a lefelau hunan-gynhaliaeth uwch. **Mân effeithiau positif** yw'r casgliad cyffredinol felly. |
| **Adnoddau naturiol** | Er bod angen gwarchod adnoddau naturiol, cydnabyddir y bydd maint y twf a gynigir drwy'r Strategaeth a Ffefrir yn arwain at o leiaf rhywfaint o golli ar yr adnoddau hyn. Mater allweddol o bryder yw colli tir maes glas, amaethyddol; fodd bynnag, nid oes modd osgoi hyn i raddau helaeth o ystyried argaeledd cyfyngedig tir llwyd yn y Fro. Serch hynny, ystyrir y bydd e**ffeithiau negyddol sylweddol** yn debygol o ystyried lefel y twf a gynigir drwy'r Strategaeth a Ffefrir, yn enwedig Safleoedd Allweddol ar ymylon yr aneddiadau. Fodd bynnag, o ystyried mai dim ond safleoedd allweddol sydd wedi'u dyrannu ar hyn o bryd, nodir lefel o ansicrwydd. |
| **Bioamrywiaeth a geoamrywiaeth** | **Effeithiau negyddol sylweddol** yw'r casgliad yma gan adlewyrchu casgliadau'r ARhC; sy'n nodi, ar gyfer rhai cyfuniadau o safleoedd Ewropeaidd a llwybr effaith, nad oedd yn bosibl i'r ARhC ddod i'r casgliad na fyddai unrhyw effaith sylweddol debygol, nac effaith andwyol ar uniondeb, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â phrosiectau a chynlluniau eraill. Mae'r cyfuniadau hyn wedi'u nodi yn yr ARhC, ac maent yn cynnwys pwysau hamdden ar safle SPA/ SAC/Ramsar Aber Afon Hafren, ac effaith ar ansawdd dŵr (elifiant carthion wedi'u trin a dŵr ffo arwyneb) ar ACA Cynffig. Fodd bynnag, cydnabyddir trwy fabwysiadu argymhellion a nodir trwy gydol yr ARhC, gallai'r cynllun adneuo arwain at effeithiau cyffredinol niwtral / cadarnhaol. |
| **Amgylchedd hanesyddol:** | Heb leoliad yr holl safleoedd sy'n sail i'r Strategaeth a Ffefrir, mae'n anodd dod i unrhyw gasgliadau diffiniol o ran natur ac arwyddocâd effeithiau sy'n debygol o godi o ran y pwnc ACI amgylchedd |

| | |
|---|---|
| | hanesyddol. Fodd bynnag, cydnabyddir bod llwyth o asedau treftadaeth dynodedig o fewn ac o amgylch y Barri a'r canolfannau gwasanaeth, yn ogystal â'r Safleoedd Allweddol, lle mae'r rhan fwyaf o dwf yn cael ei gyfeirio. Gan gymryd yr egwyddor ragofalus, rhagwelir **effeithiau negyddol sylweddol** ar hyn o bryd. Cydnabyddir y bydd yr ACI yn meddu ar fwy o wybodaeth erbyn yr iteriad nesaf o lunio cynlluniau, lle bydd effeithiau andwyol posibl yn debygol o gael eu lliniaru trwy bolisi rheoli datblygu; a dylunio ac uwchgynllunio manwl ar safleoedd allweddol. |
| **Tirwedd** | Heb leoliad yr holl safleoedd sy'n sail i'r Strategaeth a Ffefrir, mae'n anodd dod i unrhyw gasgliadau diffiniol o ran natur ac arwyddocâd effeithiau sy'n debygol o godi o ran pwnc y dirwedd. Serch hynny, cydnabyddir bod y Safleoedd Allweddol sydd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth a Ffefrir yn safleoedd tir maes glas mawr yn bennaf ar gyrion aneddiadau, gyda'r potensial i newid y dirwedd mewn modd sylweddol. Gan gymryd yr egwyddor ragofalus, rhagwelir e**ffeithiau negyddol sylweddol** ar hyn o bryd. Cydnabyddir y bydd yr ACI yn meddu ar fwy o wybodaeth erbyn yr iteriad nesaf o lunio cynlluniau, lle bydd effeithiau andwyol posibl yn debygol o gael eu lliniaru trwy bolisi rheoli datblygu; a dylunio ac uwchgynllunio manwl ar safleoedd allweddol. |

# 5. Camau nesaf a monitro

## Camau nesaf

5.1 Bydd yr Adroddiad ACI Cychwynnol a’r CA yn cyd-fynd â'r Strategaeth a Ffefrir ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus o 6 Rhagfyr 2023 i 31 Ionawr 2024. Bydd unrhyw sylwadau a ddaw i law yn cael eu hadolygu ac yna'n cael eu hystyried fel rhan o'r broses o lunio cynllun ac ACI iteraidd.

5.2 Bydd y sylwadau a dderbynnir ynghyd â gwaith sylfaen dystiolaeth pellach, gan gynnwys gwaith ACI pellach, yn llywio datblygiad y Cynllun Adneuo y bwriedir iddo gael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori arno yn gynnar yn 2025. Bydd Adroddiad ACI wedi'i ddiweddaru yn cyd-fynd â'r Cynllun Adneuo ar gyfer ymgynghori.

## Monitro

5.3 Bydd mesurau monitro yn cael eu sefydlu ar gyfer fersiwn nesaf yr Adroddiad ACI i fynd i'r afael â'r effeithiau sylweddol posibl sy'n gysylltiedig â fersiwn Adneuo’r cynllun.

aecom.com